OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 83 (Cy. 29)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 2.57 p.m. ar 27 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 4.45 p.m. ar 27 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 6.00 a.m. ar 28 Ionawr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45Q(3) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 28 Ionawr 2022.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) o dan y pennawd "*Cam 2*", hepgorer "a Cham 4";

(ii) hepgorer—

"Cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau o dan do yn y fangre, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir;

(b) pan fo'n ofynnol i bersonau aros o dan do i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt, ac eithrio rhwng aelodau o grŵp a ganiateir.

*Cam 4";*

(b) hepgorer paragraff (1A);

(c) hepgorer paragraff (3)(ba);

(d) hepgorer paragraff (4A).

(3) Hepgorer rheoliadau 16ZA ac 16ZB.

(4) Yn rheoliad 16A(1), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"(ca) na all y person, am resymau meddygol—

(i) cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig, na

(ii) cymryd prawf cymhwysol."

(5) Hepgorer Rhan 4B.

(6) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "mynediad iddynt" mewnosoder ", ac eithrio mangreoedd lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre";

(b) hepgorer paragraff (3)(h).

(7) Yn rheoliad 26, hepgorer ", 16ZA(1), 16ZB".

(8) Yn rheoliad 37, hepgorer paragraff (2).

(9) Hepgorer rheoliad 42A.

(10) Yn Atodlen 5, yng ngholofn 3 o'r tabl ym mharagraff 1, yn lle "Lefel Rhybudd 2" rhodder "Dim lefel rhybudd".

(**2**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cv. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271), O.S. 2021/1131 (Cy. 274), O.S. 2021/1212 (Cy. 303), O.S. 2021/1304 (Cy. 334), O.S. 2021/1363 (Cy. 358), O.S. 2021/1407 (Cy. 366), O.S. 2021/1468 (Cy. 376), O.S. 2021/1477 (Cy. 379), O.S. 2021/1485 (Cy. 386), O.S. 2021/1490 (Cy. 390), O.S. 2022/39 (Cy. 16), O.S. 2022/55 (Cy. 21) ac O.S. 2022/75 (Cy. 27).

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 2.57 p.m. ar 27 Ionawr 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru o 6.00 a.m. ar 28 Ionawr 2022. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys. Yr effaith yw:

- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull;
- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff fynd i ddigwyddiadau ar unrhyw adeg;
- nad oes unrhyw ofynion i unrhyw fathau penodol o fusnesau neu wasanaethau gau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu:

- rheoliad 18B o'r prif Reoliadau, sy'n darparu na chaiff unrhyw berson ymadael â'r man lle y mae'n byw at ddibenion gwaith pan fo'n rhesymol ymarferol i'r person weithio gartref;
- rheoliad 42A o'r prif Reoliadau, sy'n darparu ar gyfer gorfodi rheoliad 18B;
- darpariaethau penodol yn rheoliad 16 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â chaniatáu, neu ei gwneud yn ofynnol, i bersonau sydd fel arfer yn gweithio mewn mangreoedd rheoleiddiedig weithio gartref, a darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau o dan do yn y fangre;
- rheoliadau 16ZA ac 16ZB, sy'n gwneud darpariaeth benodol ynghylch y mesurau y mae rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd trwyddedig a mangreoedd manwerthu.

Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion mewn rhannau eraill (ar wahân i'r darpariaethau a nodir uchod ac Atodlenni 1 i 4) o'r prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymwys, gan gynnwys gofynion ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd. Mae'r gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do hefyd yn parhau i fod yn gymwys, ond mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu nad yw'n ofynnol mwyach i berson wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoedd lle y gwerthir bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre.

Er gwaethaf llacio'r rheolau ar bobl yn ymgynnull ac yn mynd i ddigwyddiadau, mae'r mesurau rhesymol (o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau) sy'n parhau i fod yn ofynnol mewn mangre reoleiddiedig yn golygu y gall fod angen i'r rheini sy'n gyfrifol am y fangre bennu terfynau ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull, ac ar gapasiti digwyddiadau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn newid cymhwystra i fod yn bresennol mewn mangreoedd penodol o dan reoliad 16A (a adwaenir yn gyffredin fel "pàs COVID") i gynnwys personau sydd â thystiolaeth na allant, am resymau meddygol, gael eu brechu neu gymryd prawf cymhwysol am y coronafeirws.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys i sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.